# CYNLLUN IAITH GYMRAEG
# CYMDEITHAS TAI SIR FYNWY

**Paratowyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) a'r Fframwaith Rheoleiddiol newydd ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2011.**

**Hydref 2023**

## 1. Datganiad Agoriadol

### Nod y Cynllun:

Mae Cymdeithas Tai Sir Fynwy (MHA) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

### Amcanion:

- galluogi pawb sy'n defnyddio gwasanaeth neu sy'n trafod gyda'r Gymdeithas i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â dewis personol yr unigolyn

- sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn wasanaethau o ansawdd uchel

- hyrwyddo’r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned

- annog eraill i hyrwyddo’r Gymraeg a’i defnyddio

- hyrwyddo’r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a’i hwyluso

Mae MHA yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fater o arfer da yn hytrach na chonsesiwn, ac y gallai gwadu’r hawl iddynt ddefnyddio'r iaith o'u dewis olygu eu bod dan anfantais. Felly, bydd MHA yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ddelio â hi, yn unol â'r egwyddor uchod.

## 2. Cyflwyniad

### Cefndir a Gwerthoedd Corfforaethol

- Dechreuodd MHA weithredu ar 21 Ionawr 2008 ar ôl trosglwyddo 3,604 eiddo o Gyngor Sir Fynwy yn dilyn pleidlais lwyddiannus gan denantiaid. Mae MHA yn Gymdeithas Budd Cymunedol a chanddi amcanion elusennol.

- Yn yr un modd â phob landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru, mae MHA wedi'i chofrestru gyda Llywodraeth Cymru a'i rheoleiddio ganddi. Mae hefyd wedi'i chofrestru gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac mae’n aelod o Cartrefi Cymunedol Cymru.

## Ein Datganiad Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw: darparu cartrefi a gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n rhoi pobl yn gyntaf

## Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw darparu cartrefi o ansawdd uchel ar gyfer ein cwsmeriaid presennol a chwsmeriaid newydd. Rydym yn ceisio trawsnewid bywydau a helpu pobl i wireddu eu huchelgeisiau mewn cymunedau ac ardaloedd bywiog lle maent yn dyheu am gael byw a gweithio.

## Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn nodi'r ffordd yr ydym yn delio â'n cwsmeriaid, ein staff a phobl a sefydliadau eraill:

**Agored**
Byddwn yn gweithredu'n onest, gydag uniondeb, a bydd ein penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd gynhwysol a thryloyw.

**Teg**
Byddwn yn ymrwymo i ddarparu gwasanaethau cyson i bawb.

**Hyblyg**
Byddwn yn arloesol ac yn rhagweithiol ac yn gweld newid fel cyfle.

**Cyflawni**
Byddwn yn gosod nodau a thargedau uchelgeisiol ac yn anelu at eu cyrraedd.

## Strwythur ac Ardal Weithredu

- Mae Sir Fynwy yn cynnwys yr ardal a arferai gael ei chwmpasu gan Gyngor Bwrdeistref Trefynwy ynghyd â chymuned Llanelly a etifeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent. Mae data'r cyfrifiad diwethaf (2021) yn dangos bod Cyngor Sir Fynwy yn gwasanaethu poblogaeth o 93,194.

- Lleolir Sir Fynwy yn Nwyrain Cymru ac mae ochr ddwyreiniol y Sir yn ffinio â Lloegr.

- Mae uwch-dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Tai a Chymunedau a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo.

- Mae Bwrdd MHA yn cynnwys 10 aelod annibynnol o'r Bwrdd

- Mae swyddfa gofrestredig MHA yn ei Phencadlys, Tŷ Nant-y-Pia, Parc Technoleg Mamheilad, Mamheilad NP4 0JJ

- Mae gan MHA oddeutu 235 aelod o staff llawn-amser a rhan-amser

**Defnyddwyr Gwasanaethau**

- Oherwydd y gofynion cymhwystra ar gyfer tai cymdeithasol yn Sir Fynwy bydd mwyafrif y tenantiaid mewn cyflwr o angen

- Ar gyfartaledd, mae tenantiaid MHA yn hŷn na phoblogaeth gyffredinol Cyngor Sir Fynwy. Nodwedd o denantiaid MHA hefyd yw incwm a chyrhaeddiad addysgol is a lefelau uwch o anabledd a salwch o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

**Y Gymraeg**

- Yn ôl y wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd yn sgil cyfrifiad 2021 mae gan 12.7% o'r boblogaeth dros dair oed sgiliau iaith Gymraeg

- Mae ffigurau diweddaraf y cyfrifiad yn dangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn Sir Fynwy, o 9.7% yn 2011 i 8.7% yn 2021.

Am ragor o wybodaeth am Gynllun Iaith Gymraeg MHA, cysylltwch â Gwyndaf Tobias, Dirprwy Brif Weithredwr ar 01495 761110 (Gwyndaf.Tobias@monmouthshirehousing.co.uk).

3. **Cynllunio Gwasanaethau a'u Cyflawni**

3.1 **Polisïau a Mentrau**

3.1.1 Wrth lunio polisïau a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisïau, bydd MHA yn asesu ei heffaith ieithyddol. Bydd hefyd yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith hwn ac yn sicrhau bod y mesurau yn y Cynllun

yn cael eu gweithredu pan fydd polisïau a mentrau newydd yn cael eu gweithredu.

3.1.2 Bydd MHA yn ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynghylch unrhyw gynnig a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni fydd y Cynllun hwn yn cael ei ddiwygio heb gytundeb ymlaen llaw gan Gomisiynydd y Gymraeg.

3.1.3 Bydd MHA yn sicrhau bod pwy bynnag sy'n ymwneud â llunio polisïau yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau MHA o dan y Cod Rheoleiddiol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

3.1.4 Gall cymdeithasau tai gyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg ar lefel leol neu gymunedol, a bydd MHA yn anelu at sicrhau bod polisïau a mentrau newydd MHA yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, ac yn ei hwyluso, lle bynnag y bo modd.

## 3.2 Darparu Gwasanaethau

3.2.1 Cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau, bydd MHA yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn dweud wrth y cyhoedd bod y gwasanaethau hynny ar gael yn y ddwy iaith.

3.2.2 Bydd MHA yn cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn y Cynllun drwy weithredu'r trefniadau canlynol:

- galluogi swyddogion o un tîm sy'n gallu siarad Cymraeg i gynorthwyo tîm arall pan fydd yr angen yn codi;
- rhannu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg gyda sefydliadau cyfagos sy'n darparu'r un gwasanaethau, neu brynu'r gwasanaethau ganddynt;
- mabwysiadu systemau neu weithdrefnau sy'n hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau yn newis iaith y sawl sy'n derbyn y gwasanaeth;
- cyflogi cyfieithwyr proffesiynol lle bo hynny'n briodol;
- codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith ymhlith staff MHA;
- ystyried yr angen i gynyddu argaeledd sgiliau Cymraeg drwy hyfforddiant a recriwtio.

## 3.3 Gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd gan sefydliadau eraill

### Swyddogaethau rheoleiddiol a gwasanaethau trydydd parti

3.3.1 Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol o'r Cynllun hwn.

**Partneriaethau**

3.3.2 Mae MHA yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae MHA yn gweithredu ar sawl lefel wrth weithio gydag eraill. Bydd MHA yn sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith wrth weithredu mewn partneriaeth.

**3.4 Safonau Ansawdd**

3.4.1 Bydd safon y gwasanaethau a ddarperir yr un mor uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg, a byddant yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen.

**4. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg**

**4.1 Gohebiaeth**

4.1.1 Mae MHA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.

4.1.2 Ymdrinnir â phob gohebiaeth yn brydlon ac ni ddylai gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg arwain at oedi ynddo'i hun.

4.1.3 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).

4.1.4 Bydd pob gohebiaeth yn dilyn sgwrs dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn Gymraeg, neu gyfarfod lle sefydlwyd mai'r Gymraeg yw iaith ddewisol yr unigolyn, yn Gymraeg.

4.1.5 Byddwn yn cadw cofnod o'r unigolion hynny sy'n dymuno delio ag MHA yn Gymraeg.

**4.2 Cyfathrebu dros y ffôn**

4.2.1 Mae MHA yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a'n harfer safonol yw sicrhau bod y cyhoedd yn gallu siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn.

4.2.2 Er mwyn cyflawni'r nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, byddwn yn cymryd y camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i drafod ag MHA yn Gymraeg dros y ffôn:

- darparu cyfeiriadur mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau atynt;
- rhoi canllawiau i staff ynghylch sut i ddelio â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau;
- enwi staff sy'n gallu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg ar daflenni, ffurflenni a chyhoeddiadau eraill

### 4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus Cyffredinol

4.3.1 Pan fydd MHA yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau tebyg eraill, bydd croeso i'r rhai sy'n bresennol gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd yna amgylchiadau lle bydd yn briodol, ar sail y wybodaeth, i gynnal yr holl weithgareddau yn ddwyieithog, yn Gymraeg yn unig neu yn Saesneg yn unig.

### 4.4 Cyfarfodydd Eraill

4.4.1 Mae MHA yn croesawu cyfarfodydd â'r cyhoedd yn Gymraeg neu yn Saesneg, ond oherwydd y nifer cyfyngedig o siaradwyr Cymraeg, ni allwn warantu cyfarfod wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn esbonio'r sefyllfa'n gwrtais ac yn cynnig opsiynau eraill, megis trefnu cyfieithu ar y pryd neu fwrw ymlaen â'r cyfarfod yn Saesneg.

### 4.5 Cyfathrebu â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

4.5.1 Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha bynnag ffordd yr ydym yn delio â'r cyhoedd.

4.5.2 Bydd MHA yn ystyried cynnwys rhywfaint o gynnwys yn y Gymraeg wrth barhau i ailddatblygu a diweddaru'r wefan.

## 5. Wyneb Cyhoeddus y Gymdeithas

### 5.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

5.1.1 Mae MHA wedi mabwysiadu hunaniaeth ddwyieithog ac yn ei chynnal.

## 5.2 Arwyddion

5.2.1 Pan fydd MHA yn adnewyddu neu'n ailgodi unrhyw arwyddion, byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn ddwyieithog. Bydd arwyddion a godir am y tro cyntaf yn ddwyieithog

5.2.2 Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parchu'r egwyddor fod y ddwy iaith yn gyfartal.

5.2.3 Ar adegau pan fydd amgylchiadau'n pennu bod arwyddion Cymraeg a Saesneg yn cael eu darparu ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd lle bo'n rhesymol ymarferol.

## 5.3 Cyhoeddi Deunyddiau a'u Hargraffu

5.3.1 Bydd MHA yn cynhyrchu ein dogfennau strategol allweddol, neu'r rhai sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol, ar ffurf ddwyieithog. Cynhyrchir dogfennau strategol allweddol ar ffurf ddwyieithog ac maent ar gael gan MHA yn uniongyrchol neu ar ein gwefan.

5.3.2 Bydd MHA yn sicrhau bod staff a'r rhai sydd â chyfrifoldeb dros argraffu yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi.

5.3.3 Bydd MHA yn sicrhau bod y testun Cymraeg yn ein cyhoeddiadau o safon uchel a bod y dôn yn briodol ar gyfer y gynulleidfa darged.

## 5.4 Ffurflenni a Deunyddiau Esboniadol

5.4.1 Bydd MHA yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog pan fo'n rhesymol ymarferol ac yn briodol o dan yr amgylchiadau.

5.4.2 Pan fyddwn yn cynhyrchu ffurflenni dwyieithog, ein harfer safonol fydd cynhyrchu ffurflenni dwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

## 5.5 Datganiadau i'r Wasg

5.5.1 Mae datganiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus MHA ac felly byddwn yn eu cyhoeddi'n ddwyieithog pan fo'n briodol dan yr amgylchiadau.

## 5.6 Ymgyrchoedd Marchnata a Chyhoeddusrwydd

5.6.1 Bydd ein hymgyrchoedd marchnata yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol y Cynllun hwn.

### 5.7 Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

5.7.1 Bydd ein hysbysiadau swyddogol a chyhoeddus yn ddwyieithog pan fydd yn briodol o dan yr amgylchiadau. Byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5.7.2 Bydd ein hysbysebion recriwtio staff yn ddwyieithog lle bo hynny'n briodol ac yn enwedig ar gyfer swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn ofynnol.

## 6. Gweithredu'r Cynllun a'i Adolygu

### 6.1 Staffio

6.1.1 Bydd MHA yn gwneud trefniadau i sicrhau, i'r graddau ei bod yn rhesymol ymarferol, fod gweithleoedd sydd â chysylltiad â'r cyhoedd yn cael mynediad at staff sydd â sgiliau Cymraeg priodol i alluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg. Bydd hyn yn angenrheidiol neu'n bosibl i raddau amrywiol, gan ddibynnu ar y gwasanaeth ac ar y maes.

6.1.2 Bydd MHA yn cynyddu adnoddau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Iaith mewn ffordd sensitif drwy annog a chefnogi pob aelod o staff i gymryd rhan. Byddwn yn datblygu sgiliau iaith yn ogystal ag agwedd gefnogol tuag at ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Ni ddylai staff di-Gymraeg deimlo dan fygythiad, ac ni ddylai'r rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg gael eu hatal rhag ymarfer yr iaith. Byddwn yn trin sgiliau iaith mewn ffordd debyg i unrhyw sgiliau eraill y mae angen eu datblygu yn y gweithle.

### 6.2 Recriwtio

6.2.1 Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol i ymgeisydd feddu ar sgiliau iaith Gymraeg, nodir hyn yn glir yn adran cymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion. Byddwn hefyd yn nodi lefel y cymhwysedd sy'n angenrheidiol ar gyfer y swydd, er enghraifft "i fod yn siaradwr Cymraeg rhugl".

### 6.3 Hyfforddiant Iaith Gymraeg

6.3.1 Bydd MHA yn parhau i gefnogi'r Cynllun Iaith hwn drwy annog aelodau o staff i ddysgu'r Gymraeg neu i wella eu sgiliau Cymraeg, a'u cefnogi i wneud hynny.

6.3.2 Mae'n ddefnyddiol bod dysgwyr yn gwybod am gydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg a byddwn yn annog staff i geisio helpu'r rhai sy'n dysgu.

### 6.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

6.4.1 Mae'r Rheolwr AD sy'n gyfrifol am hyfforddiant blynyddol yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol yn y Gymraeg i staff.

**6.5 Trefniadau Gweinyddu**

6.5.1 Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn MHA. Y Cyfarwyddwr Adnoddau sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r Cynllun Iaith ac mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i wybod sut i weithredu'r Cynllun yn effeithiol.

**6.6 Adolygu Gweithrediad y Cynllun**

6.6.1 Mae'r uwch-swyddog canlynol yn gyfrifol am fonitro’r Cynllun hwn a’i adolygu

**Gwyndaf Tobias, Dirprwy Brif Weithredwr: Ffôn 01495 761110 (Gwyndaf.Tobias@monmouthshirehousing.co.uk).**

6.6.2 Bydd MHA yn defnyddio gweithdrefn gwyno safonol y Gymdeithas i gofnodi cwynion am y Cynllun hwn, ac i ddelio â nhw, a bydd yn sicrhau y bydd modd monitro cwynion penodol am y Cynllun.

6.6.3 Bydd y Dirprwy Brif Weithredwr yn adrodd i'r Bwrdd yn flynyddol ac yn anfon copi o'r adroddiad at Gomisiynydd y Gymraeg ar gais. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat y cytunwyd arno gyda'r Bwrdd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gŵynion ac awgrymiadau ynghylch sut i wella a geir gan y cyhoedd mewn perthynas â'r Cynllun.

**6.7 Cyhoeddi Gwybodaeth**

6.7.1 Bydd MHA yn cynnwys datganiad yn ein hadroddiad blynyddol yn nodi lle gall aelodau o'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg.

**6.8 Cyhoeddusrwydd**

6.8.1 Bydd MHA yn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd sy'n delio â'r Gymdeithas yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut y gallant ddelio â'r Gymdeithas yn Gymraeg.

6.8.2 Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun, a'i gynnwys, yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol a byddant yn cynnwys sicrhau bod y Cynllun yn cael ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.